This document is available in English as well as Welsh.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg.

# ADRODDIAD CYDYMFFURFEDD

# Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

# 2025

1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025

## Cyflwyniad

Lluniwyd y papur hwn i roi trosolwg byr o gydymffurfedd o fewn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025.

## Cynnwys

1. Gofynion cyhoeddi
2. Y Gymraeg
3. Rheoli gwybodaeth
4. Rheoli cofnodion
5. Rhyddid gwybodaeth
6. Cais am fynediad at ddata gan y testun
7. Risg
8. Parhad busnes
9. Gorchymyn Protocol Plismona 2023
10. Cwynion SCHTh
11. Hyfforddiant
12. Gwaith polisi

## 1. Gofynion cyhoeddi

Mae'n ofynnol i SCHTh gyhoeddi drafft o wybodaeth ar wahanol adegau gydol y flwyddyn er mwyn bod yn dryloyw, darparu gwybodaeth i drigolion, a chydymffurfio â deddfwriaeth. Rhaid i bob SCHTh gydymffurfio â'r gofynion fel y'u nodir yng Ngorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) 2011. Mae'r gorchymyn yn sicrhau bod comisiynwyr heddlu a throseddu yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd ynglŷn â'r canlynol:

- Pwy ydynt a beth maent yn ei wneud
- Y swm y maent yn ei wario a sut y maent yn ei wario
- Beth yw eu blaenoriaethau a beth yw eu sefyllfa
- Sut y maent yn gwneud penderfyniadau
- Pa bolisïau a gweithdrefnau sy'n llywodraethu gweithrediad swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)
- Rhestrau a chofrestrau

Nid oes unrhyw asesiadau allanol wedi'u cynnal o wefannau Comisiynydd Heddlu a Throseddu ers 2021. Fodd bynnag, mae'r swyddfa'n parhau i fod yn ymwybodol o ganllawiau cyhoeddiadau 2013 y Swyddfa Gartref ar gyhoeddi gwybodaeth, lle mae'r Swyddfa Gartref yn datgan y canlynol:

"Mae angen gwybodaeth annibynnol, gyson a chlir ar y cyhoedd am berfformiad a gweithgareddau eu Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Mae tryloywder yn hanfodol i feithrin hyder yn y Comisiynydd Heddlu a Throseddu etholedig. Bydd swm gofynnol cyson o dystiolaeth hefyd yn caniatáu i'r cyhoedd gymharu perfformiad eu Comisiynydd Heddlu a Throseddu â chomisiynwyr heddlu a throseddu ardaloedd eraill."

Yn dilyn datblygiad a chyflwyniad gwefan newydd yn 2024-2025, mae gwiriadau manwl yn parhau i gael eu cynnal i sicrhau bod yr wybodaeth yn gyfredol ac yn hygyrch i bawb. Bydd hyn yn parhau gydol y blynyddoedd canlynol fel 'busnes fel arfer', gyda'r pennaeth sicrwydd yn cynnal gwiriadau hapsamplu rheolaidd.

## 2. Y Gymraeg

Daeth Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016 i rym ar 22 Mawrth 2016. Mae'r prif ddyletswyddau sy'n deillio o'r safonau yn mynnu na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylid ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd.

O fis Ebrill 2019 ymlaen, y gofyniad mynediad Cymraeg ar gyfer yr holl staff a swyddogion yw gallu sgwrsio i safon lefel 1. Cefnogir staff a swyddogion presennol nad oes ganddynt unrhyw allu yn y Gymraeg i gyrraedd lefel 1 yn y Gymraeg.

Sgiliau Cymraeg

| | |
|---|---|
| Lefel 0 | Dim gwybodaeth |
| Lefel 1 | Cyfarch |
| Lefel 2 | Gwybodaeth sylfaenol |
| Lefel 3 | Sgyrsiol |
| Lefel 4 | Ffurfiol / Sgyrsiol |
| Lefel 5 | Llawn a chywir |

Nifer staff SCHTh sydd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol:






Yn 2024-2025, ni chafodd y swyddfa ei monitro fel rhan o drefn monitro cydymffurfedd Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ar ôl iddi gael ei hasesu yn 2023-2024. Fodd bynnag, parhaodd SCHTh i gyflawni'r safonau darparu gwasanaeth disgwyliedig.

Ni chofnodwyd unrhyw achosion o dorri rheolau mewn perthynas â'r Gymraeg gan SCHTh yn y flwyddyn ariannol hon, ac ni chafwyd unrhyw gwynion yn ymwneud â chydymffurfedd y swyddfa â safonau'r Gymraeg.

Yn 2024-2025, manteisiodd rhai aelodau staff ar y cyrsiau Cymraeg ar-lein er mwyn gwella eu sgiliau, gyda thri aelod yn ymgymryd â chyrsiau lefel 1. Wedi ymgymryd â chyrsiau lefel 1 yn gynharach, cofrestrodd dau aelod o staff ar gyfer cwrs sgiliau Cymraeg Lefel 2 gan ei gwblhau yn llwyddiannus. Ailgyflwynwyd sesiwn fisol awr o hyd y Clwb Clecs lle gall aelodau staff ymarfer eu sgiliau Cymraeg gyda chydweithwyr.

Er mwyn gwella sgiliau ein gwirfoddolwyr ymhellach, cynigiwyd cyfle i bob un ohonynt wella eu sgiliau Cymraeg. Yn ogystal â hyn, bu aelodau o staff un o'n gwasanaethau a gomisiynir yn ymgymryd â chwrs lefel 1 yn y Gymraeg, a gyflwynwyd gan diwtor Cymraeg yr heddlu. Bu saith gwirfoddolwr a thri aelod o staff o wasanaeth a gomisiynir yn ymgymryd â hyfforddiant lefel 1. Bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal yn 2025-2026 er mwyn darparu hyfforddiant pellach i wirfoddolwyr lle bo angen.

Mae cynrychiolydd o'r swyddfa'n mynychu cyfarfodydd chwarterol 'Yr Iaith ar Waith' yr heddlu, sy'n rhoi cyfle i'r swyddfa ddeall y materion cyfredol y mae'r heddlu'n eu wynebu o ran y Gymraeg.

## 3. Rheoli gwybodaeth

Rheoli gwybodaeth yw’r broses o gasglu, storio, rheoli a chynnal gwybodaeth o bob math. Rhaid i SCHTh gydymffurfio â’r gofynion cyfreithiol a nodir yn y Ddeddf Diogelu Data (2018) a’r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR y DU).

Yn 2024-2025, cofnodwyd dau achos o dor diogelwch data posibl. Roedd y cyntaf mewn perthynas â TIAA, archwilwyr mewnol SCHTh, a anfonodd e-bost at gleient yn anfwriadol, a oedd i fod ar gyfer cydweithiwr mewnol. Roedd cynnwys yr e-bost yn ymwneud ag adroddiadau ar gyfer y Cyd-bwyllgor Archwilio, y mae’r rhan fwyaf ohonynt yn ddogfennau cyhoeddus. Hysbysodd yr unigolyn ei swyddog diogelu data priodol. Fe’i barnwyd yn dor diogelwch data risg isel.

Roedd yr ail achos o dor diogelwch data yn ymwneud â SCHTh, ac roedd e-bost a anfonwyd at Sancus Solutions yn cynnwys dogfen a oedd yn cynnwys manylion unigolion nad oeddent yn rhan o achos cwyn penodol. Sancus Solutions yw’r sefydliad sy’n ystyried adolygiadau cwynion SCHTh, ac felly anfonir yr holl wybodaeth yn ddiogel at unigolyn enwebedig; felly, roedd y risg yn isel. Hysbysodd yr unigolyn y swyddog diogelu data a gofynnwyd i Sancus ddileu’r wybodaeth.

Ym mhob achos cofnodwyd y toriadau diogelwch data ar unwaith, a chymerwyd y camau priodol. Hysbyswyd Swyddog Diogelu Data SCHTh. Ni ystyriwyd bod yr un o’r achosion o dor diogelwch data uchod yn doriadau adroddadwy o dan GDPR y DU.

## 4. Rheoli cofnodion

Mae SCHTh wedi ymrwymo i weithredu mewn modd agored a thryloyw. Er mwyn cydymffurfio â’r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, rhaid i SCHTh sicrhau bod ei chofnodion yn bodloni’r safonau sy’n angenrheidiol i ddelio’n effeithiol â cheisiadau rhyddid gwybodaeth.

Mae’r swyddfa yn y broses o newid i system storio ffeiliau newydd (Microsoft 365 Teams). Er mwyn paratoi ar gyfer analluogi’r system SharePoint flaenorol, cynhaliwyd ymarfer i adolygu’r holl ffeiliau sydd wedi’u storio ar hyn o bryd a’u symud i’r system newydd. Gan fod y system flaenorol wedi bod ar waith ers sawl blwyddyn, roedd hyn yn golygu adolygu miloedd o ddogfennau i benderfynu beth oedd angen ei symud a beth y gellid ei waredu, yn unol â pholisi ymchwil a datblygu SCHTh.

Sefydlwyd gweithgor i sicrhau bod pob adran o’r swyddfa yn rhan o’r broses hon.

Rhagwelir y bydd yr holl ddogfennau, ffeiliau a ffolderi wedi'u hadolygu, a naill ai wedi'u symud neu eu gwaredu erbyn diwedd haf 2025.

Mae aelod o'r tîm uwch-reolwyr a'r tîm polisi wedi'i enwebu i gymryd rheolaeth gyffredinol dros y darn hwn o waith yn y dyfodol wrth i dasgau'r gweithgor ddod i ben. Y nod yw bod pob ffolder gudd a phreifat hefyd yn cael ei hadolygu i sicrhau bod popeth yn ei le erbyn diwedd y flwyddyn. Er nad oes dyddiad wedi'i gadarnhau ar gyfer analluogi'r system flaenorol, bydd y gwaith a wnaed yn 2024 a dechrau 2025 yn sicrhau bod yr SCHTh yn y sefyllfa orau posibl ar gyfer hyn.

Mae adolygiad o bolisi ymchwil a datblygu SCHTh ei hun wedi'i gynnal, ac o'r flwyddyn nesaf ymlaen dylai pob adran gynnal adolygiad blynyddol o ddogfennau i sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y polisi.

Mae cynrychiolydd o SCHTh yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd Sicrhau Gwybodaeth chwarterol yr heddlu sy'n rhoi'r cyfle i ddeall unrhyw faterion cyfredol y mae'r heddlu'n eu hwynebu o ran rheoli cofnodion. Mae'r Bwrdd Sicrhau Gwybodaeth yn ystyried bygythiadau a chyfleoedd mewn perthynas â'r maes busnes rheoli gwybodaeth, ac yn adolygu cynnydd mewn perthynas â chynlluniau a mentrau datblygu presennol. Yn ystod y flwyddyn, bu'r Bwrdd Sicrhau Gwybodaeth yn monitro'n agos y gwaith o weithredu argymhellion Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth mewn perthynas ag ôl-groniad sylweddol o ran ymateb i geisiadau rhyddid gwybodaeth. Mae SCHTh hefyd wedi bod yn monitro'r ôl-groniad trwy dderbyn ystadegau wythnosol mewn perthynas â'r wybodaeth am ryddid gwybodaeth a ddaeth i law.

Mynegodd SCHTh bryderon i'r heddlu yn ystod y flwyddyn hefyd mewn perthynas ag oedi wrth ddatblygu Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data, sy'n ofynnol ar gyfer unrhyw brosiect sy'n prosesu data personol. Trwy drafod â'r heddlu, mae staff o SCHTh bellach yn rhan o weithgor sy'n adolygu'r prosesau a'r gweithdrefnau presennol sy'n ymwneud ag Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data, gyda'r bwriad o'u gwneud yn fwy effeithlon. Mae'r maes hwn hefyd yn cael ei fonitro gan y Bwrdd Sicrhau Gwybodaeth.

## 5. Rhyddid gwybodaeth

Fel corfforaeth undyn, mae SCHTh yn destun ceisiadau rhyddid gwybodaeth ac yn gyfrifol amdanynt. Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhoi'r hawl i bawb ofyn am unrhyw wybodaeth gofnodedig sydd gan awdurdod cyhoeddus. Mae'r hawl hwn yn ymwneud â gwybodaeth gofnodedig yn unig, gan gynnwys

gwybodaeth a gedwir ar gyfrifiaduron, mewn negeseuon e-bost ac mewn dogfennau printiedig neu ysgrifenedig â llaw, yn ogystal â delweddau, recordiadau fideo a sain. Rhaid i SCHTh ymateb i bob cais o'r fath o fewn 20 diwrnod gwaith.

Cafwyd 47 o geisiadau rhyddid gwybodaeth yn ystod blwyddyn ariannol 2024-2025, sef cynnydd o saith o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

O'r 47 o geisiadau rhyddid gwybodaeth a ddaeth i law, roedd gofyn i SCHTh ymateb i 18 ohonynt. Nodwyd bod angen i'r heddlu ystyried y 29 cais a oedd yn weddill, a darparwyd cyngor ar sut i gyflwyno cais rhyddid gwybodaeth yn uniongyrchol i Heddlu Dyfed-Powys.  Roedd y ceisiadau am wybodaeth y mae SCHTh yn ei chadw yn cynnwys:

- Gwasanaethau a gomisiynir
- Cyllid i sefydliadau allanol / grwpiau ymgyrchu
- Undebau llafur cydnabyddedig
- Praeseptau yr heddlu
- Cytundebau setlo staff
- Hawliadau iawndal am derfysg
- Trwyddedu arfau saethu

Caiff SCHTh weld ceisiadau rhyddid gwybodaeth yr heddlu er mwyn deall themâu'r ceisiadau sy'n cael eu gwneud. Mae pynciau'r ceisiadau rhyddid gwybodaeth a gyflwynir i'r heddlu yn amrywio, a gall pynciau sydd o ddiddordeb cyffredinol yn y wasg / cyfryngau, a phynciau sydd o ddiddordeb neu bryder i'r cyhoedd, ddylanwadu arnynt. Cafodd yr heddlu 1,233 o geisiadau rhyddid gwybodaeth yn 2024-2025, sef cynnydd o 44 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn ystod y flwyddyn, mae'r heddlu wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran ymateb i faterion mewn perthynas ag amseroldeb ymatebion a wnaed yn 2022-2023. Parhaodd y Cyd-bwyllgor Archwilio a SCHTh i fonitro perfformiad yn ystod y flwyddyn.

## 6. Mynediad at ddata gan y testun

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth hefyd yn rhoi'r hawl i bawb ofyn i sefydliad p'un a ydyw'n defnyddio neu'n storio eu gwybodaeth bersonol ai peidio. Gall unigolyn hefyd ofyn am gopïau o'i wybodaeth bersonol, ar lafar neu yn ysgrifenedig.

Gelwir hyn yn hawl mynediad, a'r term cyffredin am y broses hon yw cais am fynediad at ddata gan y testun. Mae'n ofynnol i SCHTh ymateb i unrhyw geisiadau o'r fath o fewn mis.

Cyfrifoldeb y SCHTh yn unig yw ymateb i geisiadau am fynediad at ddata gan y testun.

Yn ystod y cyfnod hwn, cafwyd naw cais am fynediad at ddata gan y testun. Fodd bynnag, nid oedd gan SCHTh wybodaeth am wyth o'r pynciau. Anfonwyd manylion at bob un ohonynt yn eu hysbysu sut i wneud eu cais i'r heddlu, os mai dyna oeddent yn dymuno ei wneud. Roedd thema debyg i'r holl geisiadau, gyda phobl yn gofyn am fanylion am rybuddion yr oeddent wedi'u cael, cofnodion o ddigwyddiadau ac ati.

Roedd gan SCHTh yr wybodaeth ar gyfer un o'r ceisiadau. Roedd yr wybodaeth yn ymwneud â data personol y ceisydd, a chafodd yr wybodaeth ei chasglu a'i hanfon at yr unigolyn o fewn yr amserlen ddeddfwriaethol.

## 7. Risg

Mae'r Rheolwr Busnes yn cadw Cofrestr Risgiau Corfforaethol SCHTh ac yn adrodd yn ôl arni i'r tîm uwch-reolwyr bob pythefnos, a'r Cyd-bwyllgor Archwilio bob chwarter. Os bydd risg yn codi, caiff ei thrafod cyn gynted ag y bydd yn codi er mwyn canfod lefel y risg a'i chynnwys ar y gofrestr risgiau.

Rheolir risgiau yn unol â'r Fframwaith Rheoli Risg, ac er mwyn sicrhau y caiff pob risg ei goruchwylio, cynhyrchir adroddiadau pan fo angen i amlygu unrhyw feysydd risg newydd, y risgiau i'w gollwng a'r achosion lle mae'r risg wedi cynyddu neu leihau.

Yn 2024-2025, parhaodd SCHTh i ddilyn fformat yr heddlu er mwyn sicrhau cysondeb. Pan fydd risgiau sydd wedi'u cynnwys ar y ddwy gofrestr yn codi, cynhelir trafodaethau rheolaidd rhwng SCHTh a'r heddlu i sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei darparu. Yn ystod y flwyddyn, cafodd pum risg eu gollwng oddi ar y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol, sef:

- Cymorth busnes – nodwyd y risg o ran recriwtio i ddwy swydd yn SCHTh. Yn dilyn y recriwtio a chyfnod o ymgynefino, cafodd y risg hon ei dileu.
- Llywodraeth Cymru yn tynnu cyllid Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu yn ôl – roedd hon yn risg ar y cyd â'r heddlu, a bu SCHTh yn ei monitro. Cafodd y risg ei gollwng ym mis Gorffennaf 2024 gan y byddai'r mater yn cael ei gynnwys yn yr adolygiad plismona bro.
- Gwasanaethau dioddefwyr Goleudy – risg hirdymor i SCHTh oherwydd y problemau gydag adnoddau ac o ran galw – llwyddwyd i ollwng y risg yn dilyn penodi darparwr gwasanaeth dioddefwyr newydd.

- Gwasanaethau newydd i ddioddefwyr – yn gysylltiedig â'r risg uchod, penodwyd darparwr gwasanaeth newydd i ddioddefwyr, ond cafwyd problemau o ran trosglwyddo staff i'r darparwr newydd. Gollyngwyd y risg hon ym mis Rhagfyr.

- Cyllid y Weinyddiaeth Gyfiawnder – risg sylweddol a gododd yn ystod y flwyddyn gan fod oedi cyn cyhoeddiadau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn perthynas â chyllid ar gyfer 2025-2026. Cafodd y risg hon ei gollwng ym mis Ionawr 2025 yn dilyn y cyhoeddiad y byddai cyllid yn cael ei ddarparu.

Yn ogystal â'r risgiau a grybwyllir uchod, ychwanegwyd risg bellach at y gofrestr ym mis Hydref 2024 mewn perthynas â fetio a'r risg o staff gwasanaethau a gomisiynir yn cael eu fetio mewn modd amserol. Mae gwelliannau wedi'u gwneud ond mae'r risg yn parhau i fod ar y gofrestr i'w monitro.

Mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio yn parhau i fonitro'r maes risg er mwyn caniatáu iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau.

Pan nodir risgiau penodol, anfonir nodyn at staff i'w cynghori i fod yn ymwybodol o'r risg bosibl. Mae diogelu data a seiberddiogelwch yn ddau faes lle gall risgiau godi yn rheolaidd.

## 8. Parhad busnes

Mae pecyn cymorth Rheoli Parhad Busnes SCHTh ar waith i sicrhau bod staff yn gwybod beth i'w wneud pe bai sefyllfa'n codi sy'n amharu ar fusnes fel na all gweithdrefnau arferol fynd rhagddynt. Mae'r pecyn cymorth yn amlinellu sut y byddai'r swyddfa'n ymateb yn effeithiol i adfer ei gweithgareddau a'i gwasanaethau.

Mae'r pecyn cymorth Rheoli Parhad Busnes generig wedi bod yn destun adolygiad manwl gan yr heddlu yn 2024-2025, a bydd yn cael ei weithredu o fewn SCHTh yn 2025-2026. Bydd yr Uwch-reolwr Llywodraethu a'r Uned Gwella Gwasanaethau yn darparu cymorth i sicrhau bod gan SCHTh Gynllun Parhad Busnes ar waith sydd wedi'i brofi'n llawn.

## 9. Gorchymyn Protocol Plismona 2023 – gwirio dilysrwydd

Mae adran 70 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011

yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi Protocol Plismona, sy'n berthnasol i bob Prif Gwnstabl a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu.

Mae'r protocol hwn yn nodi rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n ymwneud â'r berthynas bedair rhan, sef Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, y Prif Gwnstabl, y Panel Heddlu a Throseddu a'r Ysgrifennydd Cartref.

Er mwyn dangos cydymffurfedd â Gorchymyn Protocol Plismona 2023, datblygodd SCHTh wiriad dilysrwydd yn 2018 sy'n cwmpasu'r holl feysydd yn y protocol y mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu bŵer a dyletswydd gyfreithiol drostynt.

Mae'r gwiriad dilysrwydd bellach yn cael ei adolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol, ac er mwyn rhoi cyfle i arweinwyr busnes fyfyrio ar gofnodion blaenorol a newid y gwaith adrodd yn ôl yr angen. Er bod y swyddfa'n ystyried ffyrdd eraill o gasglu'r wybodaeth hon, parhawyd i ddefnyddio fersiwn 5 ar gyfer 2024-2025.

Mae pob maes busnes o fewn SCHTh yn cyfrannu at y gwiriad dilysrwydd bob chwarter drwy nodi gwybodaeth reoli a chrynodebau o'r gwaith y maent wedi'i wneud er mwyn bodloni'r manylebau gofynnol.

Cynhyrchir adroddiad o'r crynodebau hyn a gyflwynir i'r Panel Heddlu a Throseddu ac a gaiff ei gyhoeddi ar wefan SCHTh bob chwarter.

## 10. Cwynion SCHTh

Caiff cwynion yn erbyn staff o fewn SCHTh eu trin yn unol â Pholisi Cwynion SCHTh.
Y Prif Weithredwr sy'n ystyried cwynion yn erbyn staff o fewn SCHTh (heblaw am y Prif Weithredwr) neu am y sefydliad.

Yn ystod y cyfnod hwn, cafwyd tair cwyn yn erbyn staff o fewn SCHTh.

Cwyn 1 – Roedd y gŵyn yn ymwneud â diffyg ymateb i gais am adolygiad mewnol yn dilyn canlyniad rhyddid gwybodaeth. Deilliodd y gŵyn o gamddealltwriaeth am gais yr unigolyn a ph'un a oeddent yn dymuno cael adolygiad mewnol o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ynteu adolygiad o'r mater a oedd yn ymwneud â'u cwyn. Roedd gwersi i'w dysgu gan SCHTh mewn perthynas ag amseroldeb ymatebion yn unol â gofynion statudol ac i sicrhau bod y cyngor priodol yn cael ei roi ar brosesau SCHTh.

Cwynion 2 a 3 – Gwnaed y cwynion yn dilyn canlyniad adolygiad cwynion gan SCHTh. Er nad oes hawl bellach i apelio yn dilyn canlyniad yr adolygiad, rhoddir

ystyriaeth ofalus i unrhyw gwynion sy'n dod i law os ydynt yn ymwneud ag ymddygiad aelod o staff. Ni chymerwyd unrhyw gamau pellach yn dilyn y cwynion a godwyd, ac ni nodwyd unrhyw wersi i'w dysgu.

## 11. Hyfforddiant

Rhoddir cyfle i holl staff SCHTh ymgymryd â hyfforddiant rheolaidd i sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau y mae eu hangen i gyflawni eu dyletswyddau. Mae'r system arfarnu (adolygiad datblygu perfformiad) yn caniatáu i reolwyr llinell fonitro hyfforddiant staff a thrafod unrhyw ofynion.

Casglodd y tîm uwch-reolwyr geisiadau am hyfforddiant yn 2024-2025 ar gyfer y gwahanol fusnesau, ac fe'u trafodwyd yng nghyfarfodydd y tîm uwch-reolwyr o bryd i'w gilydd i sicrhau bod yr hyfforddiant yn berthnasol ac yn addas i ddiben y swyddfa. Bydd hyn yn parhau yn 2025-2026.

Yn ogystal â hyn, mae'n ofynnol i bob aelod o staff ymgymryd â modiwlau gorfodol y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Technolegau Dysgu Cymhwysol (NCALT) ar amrywiaeth o bynciau er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod am y pynciau sy'n effeithio arnynt, e.e. iechyd a diogelwch, diogelu data, gweithio ar eu pen eu hunain. Yn 2024-2025, roedd angen cwblhau cyfres o saith modiwl hyfforddiant mewn perthynas â'r cod moeseg. Roedd modiwlau hyfforddiant diwygiedig yn ofynnol yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys iechyd a diogelwch yn y gweithle a chynefino staff yr heddlu. Diwygiwyd y modiwlau hyn o ganlyniad i newidiadau mewn meysydd megis deddfwriaeth ac arferion gwaith.

O bryd i'w gilydd bydd yr heddlu yn gofyn i bob aelod o staff gwblhau modiwl NCALT penodol. Bydd y Rheolwr Busnes yn rhoi gwybod i'r holl staff ac yn ei nodi ar y matrics hyfforddi. Mae'r ceisiadau yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf wedi cynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn gysylltiedig â hil.

Ar y cyfan, mae lefelau cydymffurfio o ran cwblhau'r hyfforddiant penodol yn uchel. Mae'r Prif Swyddog Gweithredol yn atgoffa staff, drwy'r tîm uwch-reolwyr, o'r gofyniad i gwblhau hyfforddiant. Ar ddiwedd 2024-2025, roedd lefelau cydymffurfio y mwyafrif helaeth o'r tîm dros 75%, gyda'r gweddill ond ychydig ganrannau'n is, sef 73% a 74%.

Yn 2024-2025, mae staff SCHTh wedi ymgymryd â nifer o sesiynau Dysgu Amser Cinio mewn meysydd allweddol o ddiddordeb. Roedd y sesiynau'n cynnwys gwybodaeth am rwydweithiau cymorth staff, hyfforddiant iaith a therminoleg mewn perthynas â gwrth-hiliaeth, rhwydweithiau diogelwch cymunedol a fframwaith rheoli budd-daliadau. Mae'r swyddfa hefyd wedi cael hyfforddiant ychwanegol ar eu diwrnodau cwrdd i ffwrdd ar y pwnc Ystyriol o Drawma, lle bu'r tîm yn edrych ar y gwaith y maent yn ei wneud ar hyn o bryd, ac yn nodi'r meysydd gwaith ar gyfer y dyfodol a fydd, pan gânt eu gweithredu,

yn dangos eu bod yn sefydliad sy’n ystyriol o drawma.

## 12. Ymatebion Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi

Cyflwynwyd wyth ymateb i Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

- Adolygiad cyflym i blismona anhrefn cyhoeddus
- Adroddiad sbotolau ar effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu: ymateb plismona i ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Ymateb yr heddlu i stelcio: adroddiad ar yr uwch-gŵyn a wnaed gan Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh ar ran y Consortiwm Cenedlaethol ar Stelcio
- Adroddiad trosolwg: arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant 2019-2024
- Adroddiad arolygu ar gynnydd i gyflwyno model gweithredu cenedlaethol ar gyfer treisio a throseddau rhywiol difrifol eraill
- Fetio a gwrthlygredd rhan 2: pa mor effeithiol yw’r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol wrth ymdrin â llygredigaeth
- Sefyllfa plismona: adroddiad asesiad blynyddol o blismona yng Nghymru a Lloegr ar gyfer 2023
- Adroddiad arolygu ar actifiaeth a didueddrwydd ym maes plismona